# 9 Manylion ariannol – parhad

**Cyfanswm incwm o enillion yswiriant bywyd, gwarantau a phartneriaethau yn y Deyrnas Unedig**

ⓖ Dywedwch wrthym faint o logau / incwm a gawsoch chi o'r math(au) canlynol o gynilion ac incwm buddsoddi:

- llog o stoc gilt a gwarantau eraill yn y Deyrnas Unedig – cyfanswm gros cyn treth;
- Enillion polisi yswiriant bywyd ayyb yn y Deyrnas Unedig y cafodd treth a dalwyd arnyn nhw ei drin fel treth a dalwyd;
- Enillion polisi yswiriant yn y Deyrnas Unedig ac ati yr oedd y dreth yn cael ei thrin fel treth a dalwyd;
- Enillion polisïau yswiriant bywyd yn y Deyrnas Unedig ac ati o ISAs a ddilëwyd;
- eich cyfran o log ac ati a drethwyd;
- cyfanswm incwm cynilon heb ei drethu trethadwy ar 20%;
- Incwm y codwyd treth arno trethadwy ar 10%;
- Incwm y codwyd treth arno trethadwy ar 20%.

**Incwm o fuddsoddiadau a difidendau yn y Deyrnas Unedig**

ⓖ Dywedwch wrthym faint o logau / incwm a gawsoch chi o'r math(au) canlynol o gynilion ac incwm buddsoddi:

- difidendau gan gwmnïau yn y Deyrnas Unedig;
- difidendau eraill;
- difidendau stoc;
- dosbarthiadau anghymwys a benthyciadau cwmni caeedig a ddilëwyd neu a ryddhawyd;
- cynlluniau cyfranddaliadau – swm trethadwy.

**Incwm o fuddsoddiadau a difidendau tramor**

ⓖ Dywedwch wrthym faint o logau / incwm a gawsoch chi o'r math(au) canlynol o gynilion ac incwm buddsoddi:

- difidendau tramor;
- llog ac incwm arall o gynilon tramor;
- difidendau gan gwmnïau tramor;
- incwm difidendau a dderbyniwyd gan unigolyn tramor.

# 9 Manylion ariannol – parhad

**C4 Incwm o fuddion trethadwy mewn nwyddau**

ⓖ **P11D**

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion beth yr ydym am i chi ei gynnwys fel rhan o gyfanswm eich incwm o 'fuddion trethadwy mewn nwyddau' yn ystod blwyddyn dreth 2019-20. Adiwch yr holl fuddion mewn da y gwnaethoch eu derbyn at ei gilydd ac ysgrifennwch y cyfanswm ar y ffurflen.

| Buddion mewn nwyddau |
|---|
| Asedau a oedd ar gael i gyflogeion (ceir, eiddo, nwyddau neu asedau eraill) |
| Taliadau a wnaed ar ran gweithiwr |
| Talebau a chardiau credyd |
| Llety |
| Lwfans milltiredd a thaliadau i deithwyr |
| Cyfanswm gwerth ariannol cyfatebol yr holl geir/faniau oedd ar gael |
| Cyfanswm gwerth ariannol cyfatebol tanwydd ar gyfer yr holl geir/faniau oedd ar gael |
| Cyfanswm gwerth ariannol cyfatebol benthyciadau ar ôl didynnu unrhyw log a dalwyd gan y benthyciwr |
| Triniaeth feddygol breifat neu yswiriant meddygol preifat |
| Taliadau a buddion treuliau symud cymwys |
| Gwasanaethau a ddarparwyd |
| Asedau at ddefnydd gweithwyr |
| Eitemau eraill (yn cynnwys tanysgrifiadau a ffioedd proffesiynol) |
| Taliadau treuliau a wnaed i'r gweithiwr neu ar ei ran |

## Rhan D

**C1 Incwm o hunangyflogaeth**

ⓖ I sicrhau fod y cwestiwn hwn yn haws i'w ateb, rydym wedi'i rannu yn ddwy ran. Efallai eich bod chi wedi cael neu heb gael incwm o'r ddwy ran. Dywedwch wrthym am y rhai a gawsoch chi.

**Cyfanswm yr elw wedi'i addasu o fusnesau**

ⓖ Dylech gynnwys y math incwm isod fel eich ateb ar gyfer cyfanswm yr elw wedi ei addasu a gawsoch o hunangyflogaeth yn ystod blwyddyn dreth 2019-20;

- cyfanswm elw wedi'i addasu o'r busnes hwn (wedi'i gyfuno yn achos sawl hunangyflogaeth).

**Cyfanswm yr elw wedi'i addasu o bartneriaethau**

ⓖ Dylech gynnwys y math(au) o incwm isod fel eich ateb ar gyfer cyfanswm yr elw wedi ei addasu a gawsoch o hunangyflogaeth yn ystod blwyddyn dreth 2019-20:

- cyfran o gyfanswm yr incwm wedi'i drethu a heb ei drethu ac eithrio incwm a drethir ar 10% ac 20%;
- eich cyfran o gyfanswm elw wedi'i addasu o'r partneriaethau.

